Safon UG a Safon Uwch y Gyfraith

Cyflwyniad

Mae cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch y Gyfraith yn cael eu diwygio yng Nghymru i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2017. Caiff cymhwyster Uwch Gyfrannol a Safon Uwch diwygiedig y Gyfraith eu datblygu gan CBAC a dyma fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymhwyster hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, ymgynghorir â'r cyhoedd o ran cynnwys, strwythur ac asesiad y cymwysterau diwygiedig.

Rydym wedi llunio'r cynigion yn yr holiadur hwn mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau, prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu meini prawf dylunio ar gyfer y cymwysterau: Uwch Gyfrannol a Safon Uwch y Gyfraith Caiff y meini prawf cymeradwyo eu hadlewyrchu ym manyleb a deunyddiau asesu enghreifftiol cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch diwygiedig y Gyfraith

Nodau a chynnwys pwnc

Gellir dod o hyd i'r meini prawf pwnc presennol ar gyfer Safon Uwch y Gyfraith yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371170/11-10-18-gce-law.pdf

Mae cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith hefyd yn cael ei ddiwygio yn Lloegr. Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yng Nghymru wedi ystyried y diwygio er mwyn sicrhau bod y cymwysterau diwygiedig yng Nghymru a Lloegr yn gyson â'i gilydd. Gellir dod o hyd i'r meini prawf pwnc ar gyfer cymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yn Lloegr yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/496377/Law_AS_A_Level_subject_content.pdf

Nodau ac amcanion pwnc

Mae'r meini prawf pwnc presennol ar gyfer Safon Uwch y Gyfraith yn amodi y dylai'r manylebau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn y Gyfraith annog myfyrwyr i wneud y canlynol:

- datblygu a chynnal eu mwynhad o'r gyfraith a'u diddordeb yn y pwnc;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o feysydd penodol o'r gyfraith a'r system gyfreithiol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon;
- datblygu dealltwriaeth o ddulliau ac ymresymu cyfreithiol;
- datblygu technegau ar gyfer meddwl yn rhesymegol a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ddadansoddi a datrys problemau gan ddefnyddio rheolau cyfreithiol;
- datblygu'r gallu i fynegi dadleuon a chasgliadau cyfreithiol gan gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol;
- datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o natur newidiol y gyfraith mewn cymdeithas.

Awgrymodd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yng Nghymru fod y nodau pwnc presennol yn briodol ar gyfer y lefel astudio, ond y gellid eu gwella drwy gynnwys datblygu ymwybyddiaeth feirniadol a sgiliau dadlau cyfreithiol fel nodau pellach. Felly, cynigiwn gadw'r nodau pwnc presennol ar gyfer cymhwyster Safon Uwch newydd y Gyfraith, gan ychwanegu'r canlynol:

Rhaid i'r myfyrwyr wneud y canlynol:

- datblygu'r gallu i gyfleu dadleuon cyfreithiol perswadiol gan gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol
- gallu dangos ymwybyddiaeth feirniadol o ddylanwad a gweithrediad y gyfraith mewn cymdeithas.

C1: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau ac amcanion pwnc arfaethedig ar gyfer cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Cynnwys pwnc

Ar y cyfan, mae'r cynnwys yn Lloegr yn amodi ei bod yn rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- natur y gyfraith a system gyfreithiol Cymru a Lloegr;
- cyfraith breifat (cyfraith contract a chyfraith camwedd);
- cyfraith gyhoeddus (cyfraith droseddol neu gyfraith hawliau dynol);
- ac ar gyfer Safon Uwch, ail o un o'r ddau faes o'r gyfraith a restrir uchod ar gyfer cyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus.

Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn ystyried bod y cynnwys yn briodol ac y byddai'n cynnig gwybodaeth a dealltwriaeth eang a dwfn o'r gyfraith a'r system gyfreithiol. Fodd bynnag, nodwyd y dylid cynnwys agweddau ar y gyfraith yng Nghymru, sef deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a lunnir gan Lywodraeth Cymru, yng nghymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru.

Cynigiwn y dylid mabwysiadu cynnwys pwnc cymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yn Lloegr ar gyfer cymwysterau diwygiedig Uwch Gyfrannol a Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru gan wneud yr addasiadau a'r ychwanegiadau canlynol:

- cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a lunnir gan Lywodraeth Cymru drwy ei hawdurdod datganoledig, gan gynnwys y sail ddeddfwriaethol sy'n caniatáu'r awdurdod hwnnw;
- y gyfraith sy'n ymwneud â natur ddwyieithog Cymru;
- caiff cyfeiriadau a wneir at system gyfreithiol Lloegr eu disodli gan gyfeiriadau at system gyfreithiol Cymru a Lloegr.

C2: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Amcanion asesu

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amcanion asesu a'r pwysoliadau ar gyfer cymhwyster Safon Uwch presennol y Gyfraith:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad		
		Safon UG	Safon A2	Safon Uwch
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol drwy ddewis ac esbonio gwybodaeth berthnasol a'i hegluro gan ddefnyddio enghreifftiau a dyfyniadau	45–55%	35–45%	40–50%
AA2	Dadansoddi deunydd, materion a sefyllfaoedd cyfreithiol, a gwerthuso a chymhwyso rheolau ac egwyddorion cyfreithiol priodol.	30–40%	45–55%	37.5–47.5%
AA3	Cyflwyno dadl resymegol a threfnus a chyfleu deunydd perthnasol mewn modd clir ac effeithiol gan ddefnyddio terminoleg gyfreithiol briodol.	5–15%	5–15%	5–15%

Bydd yr amcanion asesu canlynol yn berthnasol i gymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yn Lloegr:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad	
		Safon UG	Safon Uwch
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol	40-50%	30-40%
AA2	Cymhwyso rheolau ac egwyddorion cyfreithiol at senarios penodol er mwyn cyflwyno dadl gyfreithiol gan ddefnyddio terminoleg gyfreithiol briodol	25-35%	25-35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso rheolau, egwyddorion, cysyniadau a materion cyfreithiol	20-30%	30-40%

Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo y byddai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig ar gyfer cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith yn Lloegr yn briodol ar gyfer y cymhwyster diwygiedig yng Nghymru.

Cynigir y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol fod yn berthnasol i gymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad		
		Safon UG	Safon A2	Safon Uwch
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol	40-50%	30-40%	30-40%
AA2	Cymhwyso rheolau ac egwyddorion cyfreithiol at senarios penodol er mwyn cyflwyno dadl gyfreithiol gan ddefnyddio terminoleg gyfreithiol briodol	25-35%	25-35%	25-35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso rheolau, egwyddorion, cysyniadau a materion cyfreithiol	20-30%	30-40%	30-40%

C3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig fod yn berthnasol i gymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mewn perthynas â chymwysterau diwygiedig yng Nghymru, dim ond os mai hyn yw'r asesiad mwyaf addas, er enghraifft i gynnal astudiaeth maes neu berfformiad cerddorol, y defnyddir asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Felly, dim ond pan na all arholiadau ysgrifenedig ddarparu asesiad dilys o sgiliau neu wybodaeth benodol y defnyddir asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Ar hyn o bryd, caiff cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig. Cynigiwn y dylai cymhwyster diwygiedig Safon Uwch y Gyfraith yng Nghymru barhau i gael ei asesu'n gyfan gwbl drwy arholiadau ysgrifenedig.

C4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cymhwyster Safon Uwch y Gyfraith gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig?

- ○ Cytuno'n gryf
- ○ Cytuno
- ○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ○ Anghytuno
- ○ Anghytuno'n gryf
- ○ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C5: Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi?

Rhowch sylwadau

Effeith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchodedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C6: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Safon UG a Safon Uwch y Gyfraith

Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon.

Os byddwch yn rhoi manylion cyswllt, efallai y gwnawn gysylltu â chi am eglurhad o'ch atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru (CC) yn rhannu'r manylion hyn, na'ch atebion, ag unrhyw drydydd parti.

Personal details

Enw

Sefdyliad

Cyfeiriad e-bost

A ydych yn ymateb fel unigolyn, neu ar ran eich sefydliad?

- ◯ Unigolyn
- ◯ Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch ‘amherthnasol’ os ydych yn ymateb fel unigolyn.

- ◯ Ysgol
- ◯ Coleg
- ◯ Prifysgol
- ◯ Corff Dyfarnu Cymwysterau
- ◯ Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, y DU neu'r UE)
- ◯ Amherthnasol
- ◯ Arall

Beth ydych chi? (dewiswch fel sy'n briodol)

- [ ] Athro
- [ ] Darlithydd Coleg
- [ ] Darlithydd Prifysgol
- [ ] Myfyriwr
- [ ] Rhiant
- [ ] Arall